

## Cyngor Sir Gâr

### Cynllun Gweithredu Safonau'r Iaith Gymraeg 2021 – 22

Mae'r Cynllun Gweithredu hwn yn cyflawni gofynion Safonau Atodol 157, 159, 163, 165, 169, 171 a 175 Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Sir Gâr.

#### Dosbarth o Safon: Cyflenwi Gwasanaethau

<b>Trefniadau Cydymffurfio</b>	Cynnal a chefnogi Arweinwyr Iaith Adran Cymunedau, Amgylchedd a Gwasanaethau Plant i sicrhau gweithrediad y Safonau yn gyffredinol yn eu hadrannau a'u timoedd
	Diweddarau a hyrwyddo'r Canllawiau i staff ar gydymffurfio â'r Safonau gohebu, cyfathrebu ar y ffôn, cynnal cyfarfodydd caeëdig a digwyddiadau cyhoeddus, arwyddion, ffurflenni a recriwtio
	Llunio, cyhoeddi a hyrwyddo canllaw ar recriwtio, penodi ac asesu sgiliau iaith
	Diweddarau'r system electronig o ran pwynt cyswllt cyntaf y cyngor, i gynnwys cwestiwn am ddewis iaith, wrth gyfeirio ymholiadau at adrannau
	Darparu rhestrau gwirio a chanllawiau penodol i weddu gwasanaethau penodol o fewn adrannau amrywiol
	Cydweithio gyda'r isadran Datblygu Economaidd i sicrhau bod grantiau a phrosiectau Deg tref Wledig yn cael eu gweithredu'n unol â'r Safonau
	Cydweithio gyda Datblygu Economaidd a Hamdden i sicrhau bod y prosiect Pentref Awel yn cael ei sefydlu yn unol â'r Safonau

	Archwilio posibiliadau technolegol o gynnwys brawddeg ar fersiynau Saesneg ein holl e-ffurflenni sy'n nodi bod y ffurflen ar gael yn Gymraeg
	Arweinwyr iaith yn hyrwyddo'r Gymraeg ar ddyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru yn fewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
<b>Trefniadau Goruchwylio cydymffurfiaeth</b>	Tua 60 o Arweinwyr iaith yn cadw golwg anffurfiol ar weithrediad y Safonau yn yr Adrannau Amgylchedd, Cymunedau a Gwasanaethau Plant, yn adnabod bylchau a rhwystrau ac yn hyrwyddo cydymffurfiaeth
	Panel Ymgynghorol y Gymraeg yn goruchwylio cydymffurfiaeth drwy dderbyn cyflwyniadau ar feysydd gwahanol yn y cyfarfodydd chwarterol a thrwy graffu ar yr Adroddiad blynyddol cyn iddi gael ei gymeradwyo. Byddant hefyd yn adrodd drwy'r cyfarfodydd chwarterol ar wendidau yn narpariaeth Gymraeg unrhyw wasanaethau sy'n lleol iddyn nhw.
	Tîm Rheoli Corfforaethol yn goruchwylio cydymffurfiaeth drwy gyfarfodydd, drwy dderbyn adroddiadau amrywiol, drwy graffu ar gwynion penodol a thrwy graffu ar yr Adroddiad blynyddol.
<b>Trefniadau Hybu a hwyluso</b>	Sicrhau bod dewis iaith hwylus ar gael ar pob tudalen we a gwasanaeth ar lein
	Hyrwyddo hawliau ein trigolion ar ddiwrnod 'Mae Gen i Hawl'
	Cynnal prosiectau peilot i gynyddu defnydd tudalennau gwe a chanolfannau ailgylchu mewn ymgais i newid arferion iaith y cyhoedd

## Dosbarth o Safon: Lluio Polisi

<b>Trefniadau Cydymffurfio</b>	Datblygu'r defnydd o'r Aseiad Effaith Integredig ym mhroses Ddemocrataidd y Cyngor
	Sicrhau ystyriaeth o effeithiau ar y Gymraeg ym mhrif Gynllun Tai ac Adfywio'r Cyngor
	Rhannu dolen gyda'r fforwm sirol ar gyfer ymgynghoriadau a fyddai'n cael effaith pellgyrhaeddol ar y Gymraeg
	Sicrhau bod cwestiynau am y Gymraeg ar e-ffurflenni pob ymgynghoriad
<b>Trefniadau Goruchwyllo cydymffurfiaeth</b>	Tîm Rheoli Corfforaethol yn goruchwyllo cydymffurfiaeth drwy gyfarfodydd y tîm, drwy dderbyn adroddiadau amrywiol, drwy graffu ar gwynion penodol a thrwy graffu ar yr Adroddiad blynyddol.
	Y broses Ddemocrataidd gyfan, gan gychwyn gyda'r Tîm Rheoli Corfforaethol yn ystyried cynnwys yr Aseiad Effaith Integredig ar holl brif benderfyniadau strategol y cyngor.

## Dosbarth o Safon: Gweithredu

<b>Trefniadau Cydymffurfio</b>	Diweddarau Polisi defnydd mewnol
	Gweithredu ymdrechion i leihau'r bwlch rhwng y swyddi sy'n cael eu hysbysebu ar lefelau 3+ a'r staff sydd sy'n cael eu penodi heb y sgiliau hynny
	Sicrhau bod rhaglen 'Ffyrdd gwell o weithio' y Cyngor yn dilyn Covid 19 yn cael ei gyfathrebu'n ddwyieithog

	Sicrhau bod rhaglen 'Ffyrdd gwell o weithio' y Cyngor yn dilyn Covid 19 yn ystyried effaith ar ddefnydd y Gymraeg yn y gweithle
	Cadw gorolwg o ddatblygiadau technoleg gwybodaeth i sicrhau ein bod yn manteisio ar gyfleoedd i gynyddu defnydd staff o'r Gymraeg ar dechnoleg
	Parhau i ddatblygu defnydd y Swigen Cymraeg Gwaith ar broffiliau staff ar <i>Teams</i> er mwyn cynyddu defnydd mewnol o'r Gymraeg
	Cynnal cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg yn anffurfiol ar-lein er mwyn cynnal sgiliau Cymraeg staff a chynyddu hyder dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg
	Cynnal digwyddiadau ar lein i ddathlu dydd Gŵyl Dewi fydd yn cynyddu defnydd y Gymraeg ymysg staff
	Parhau i hyrwyddo a hwyluso cyfleoedd dysgu amrywiol ar gyfer ein gweithlu a hynny mewn partneriaeth gyda'r Ganolfan Ddysgu Cenedlaethol
	Parhau i ddatblygu'r partneriaethau mentora rhwng dysgwyr a siaradwyr Cymraeg sy'n staff
	Mireinio a datblygu'r broseso gytuno a monitro cynnydd yn erbyn y Cynlluniau Dysgu sy'n cael eu cytuno gyda staff newydd
	Arweinwyr laith yn hyrwyddo'r Gymraeg ar ddyddiadau fel Dydd Miwsig Cymru yn fewnol er mwyn codi ymwybyddiaeth o'r Gymraeg
<b>Trefniadau Goruchwylio cydymffurfiaeth</b>	Panel Ymgynghorol y Gymraeg yn goruchwylio cydymffurfiaeth drwy dderbyn cyflwyniadau ar feysydd gwahanol yn y cyfarfodydd chwarterol a thrwy graffu ar yr Adroddiad blynyddol cyn iddi gael ei gymeradwyo. Byddant hefyd yn adrodd drwy'r cyfarfodydd chwarterol ar wendidau yn narpariaeth Gymraeg unrhyw weithredu mewnol sy'n berthnasol iddyn nhw.

	Cynnwys data yn yr adroddiad blynyddol fydd yn cymharu y flwyddyn gyda'r un flaenorol i gadw golwg ar gynnydd yn nifer y gweithlu sydd â sgiliau Cymraeg a nifer y gweithlu sy'n ymrwymo i ddysgu Cymraeg
	Tîm Rheoli Corfforaethol yn goruchwyllo cydymffurfiaeth drwy gyfarfodydd y tîm, drwy dderbyn adroddiadau amrywiol, drwy graffu ar gwynion penodol a thrwy graffu ar ddata'r Adroddiad blynyddol.
<b>Trefniadau Hybu a hwyluso</b>	Hyrwyddo cyfleoedd dysgu a datblygu a chyfleoedd derbyn hyfforddiant drwy gyfrwng y Gymraeg drwy gylchlythyron mewnol y cyngor a thrwy sianel Team yr Arweinwyr Iaith.

## Dosbarth o Safon: Hybu

<b>Trefniadau Cydymffurfio</b>	Cynnal, gweithredu a gweinyddu cyfarfodydd chwarterol Fforwm Strategol sirol y i gynllunio a chraffu ar y Gymraeg yn y sir
	Asesu effaith Strategaeth Hybu Sir Gâr 2017-21
	Llunio Strategaeth newydd 5 mlynedd ar gyfer hybu'r Gymraeg yn sir Gâr
	Cychwyn Llunio Cynllun Gweithredu newydd ar gyfer y Strategaeth
	Cychwyn gweithredu ar y Cynllun Gweithredu o safbwynt pwyntiau gweithredu'r Cyngor sir
	Comisiynu adroddiad ar y Gymraeg yn y sir yn dilyn canlyniadau Cyfrifiad 2021

	Ariannu grantiau i Fentrau Iaith y Sir a gosod rhaglen waith yn ei le ar gyfer y flwyddyn a chynnal trefn fonitro ac adrodd
	Arweinwyr Iaith a Thîm marchnata a'r cyfryngau yn hyrwyddo'r Gymraeg drwy gyfrwng dyddiau penodol fel Dydd Miwsig Cymru a Diwrnod Shwmae
<b>Trefniadau Goruchwyllo cydymffurfiaeth</b>	Y Fforwm Sirol yn cynllunio cynnwys y Strategaeth newydd a'r Cynllun Gweithredu
	Y Fforwm Sirol yn craffu ar weithrediad y Cynllun Gweithredu yng nghyfarfodydd chwarterol y Fforwm wedi iddi gychwyn ar ei thaith
	Diweddarau Cynllun gweithredu newydd y Strategaeth Hybu gyda chynnydd yn rheolaidd

### Dosbarth o Safon: Cadw Cofnodion

<b>Trefniadau Cydymffurfio</b>	Parhau i weithredu system gwynion y Cyngor gan fwydo'r wybodaeth ddaw o'r system honno i adroddiad blynyddol y Gymraeg 2021-22
	Bydd yr adroddiad blynyddol yn adrodd ar nifer y cwynion a wneir yn ymwneud â'r Gymraeg yn ystod y flwyddyn
	Bydd data yn cael ei gasglu ar gyfer yr adroddiad blynyddol erbyn diwedd y flwyddyn ariannol
	Bydd yr adroddiad blynyddol yn adrodd ar y data ar nifer y swyddi a hysbysebir ar bob lefel iaith, sgiliau iaith y gweithlu a nifer y staff sy'n mynychu cyrsiau Cymraeg a chyrsiau trwy gyfrwng y Gymraeg

<b>Goruchwyllo cydymffurfiaeth</b>	Bydd y Tîm Rheoli Corfforaethol a'r Bwrdd Gweithredol yn sicrhau bod yr Adroddiad blynyddol yn cynnwys y data a nodir uchod ac yn cael ei lunio a'i gymeradwyo yn unol â'r amserlen ac yn ymddangos ar wefan y Cyngor